



Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

27.03.25

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
Dear Parent / Guardian,

Wythnos Gymreictod / Welsh Week

Rydym wedi cael wythnos i'r brenin! Wythnos sydd yn uchafbwynt yn ein calendr blyneddol erbyn hyn, wythnos ble fo'r holl ysgol yn cydweithio er mwyn cynllunio profiadau sydd yn dathlu a dyfnhau balchder ein disgyblion o fod yn Gymry!

Gydol yr wythnos, mae'r disgyblion wedi mwynhau gwersi sydd wedi eu cynllunio gan amrywiol athrawon ar draws yr ysgol - gwersi chwaraeon a oedd yn dathlu dawnsio gwerin neu hanes Guto Nyth Brân, coginio, sesiynau celf, dysgu am barciau cenedlaethol ac afonydd Cymru a chlywed chwedl Madog. Yn ogystal â hyn, mae amryfal profiadau wedi eu trefnu - y disgo tawel dydd Llun (sôn am hwyl!), ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol i arsylwi'r celf a mwynhau sesiwn gan Meilir Siôn yng NgŴyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd! Bore 'ma mae'r disgyblion wedi eu rhannu ac maen nhw'n mwynhau sesiwn ble fo'r holl ddisgyblion o bob oed wedi cymysgu ac maen nhw'n adeiladu, yn chwarae gemau, yn cyd-ddarllen a thynnu lluniau i enwi ychydig o weithgareddau ar y cyd. Maent yn gwneud hyn oll gan Siarad Cymraeg Gyda Balchder! Heb os, dyma sesiwn sydd wedi codi gwên!

Mae'r Criw CŴl Cymraeg wedi lansio ein cystadleuaeth Brwydr y Bandiau ac edrychwn ymlaen yn arw i glywed bandiau gwych Pencae yn ystod wythnos olaf y tymor!

We've had a fantastic week! Our Welsh week is always a highlight within our annual calendar where the whole school works collaboratively to further develop our pupils pride in their Welshness!

Throughout the week, the pupils have enjoyed lessons planned by teachers beyond their class teacher. They've enjoyed sports lessons that included Folk Dancing and challenges around the Guto Nyth Brân history, they've been cooking, learnt about the National Parks



and rivers and they've learnt about the legend of Madog (who, according to Welsh legend, discovered America 300 years before Columbus!) The pupils have also enjoyed the following experiences, the silent disco on Monday (which was brilliant!), a visit to the National Museum to observe the art pieces and enjoyed a session with the Welsh author, Meilir Siôn at the Cardiff Literature Festival. This morning, they are all mixed in various classes, where children from the Reception class to year 6 are playing games together, building, reading stories and drawing to name but a few activities whilst speaking Welsh with pride. There was a wide smile on everyone's faces.

The Criw Cŵl Cymraeg (Welsh Crew) have launched our Brwydr y Bandiau (Battle of the Bands) competition! We can't wait to hear the harmonious and talented sounds of all the Pencae bands during the last week of term!

Rownd Derfynol Primary 5's Finals

Llongyfarchiadau i'r bechgyn am berfformiad arbennig yn rownd derfynol Primary 5's. Chwaraeon nhw'n ardderchog!

Congratulations to the boys for a fantastic performance in the Primary 5's final round. They played excellently!



Uchafbwyntiau Wythnos diwethaf, sori! ***Last Week's highlights - sorry!***

Gêm bêl-rwyd / Netball Game Ysgol Pencae v Ysgol Glan Ceubal
Llongyfarchiadau mawr iawn i dîm pêl-rwyd ysgol Pencae wrth ennill gêm gyfeillgar o bêl-rwyd yn erbyn Ysgol Glan Ceubal. Roedd y goliau yn byrlymu wrth i'r bêl wibio i fyny a lawr y cwrt!



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



[ysgolpencae](https://www.instagram.com/ysgolpencae)



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851

Congratulations to Ysgol Pencae's Netball team for winning a friendly game against Ysgol Glan Ceubal. The goals were numerous as they moved the ball swiftly up and down the court.

Gwasanaeth Blwyddyn 3 Assembly

Roedden ni gyd wrth ein boddau wythnos ddiwethaf wrth i ni weld 30 môr-leidr ffyrnig ar y llwyfan yn cyflwyno hanes Barti Ddu! Roedd blwyddyn 3 yn wych a chafon ni sioe gwerth-chweil ganddyn nhw. Llongyfarchiadau i'r holl blant, i Miss Williams a Mrs Fox. Yr wythnos hon, mae Mei Gwynedd wedi bod mewn yn recordio eu cân arbennig am Barti Ddu!

Last week, we watched year 3's energetic class assembly. 30 enthusiastic pirates performed and introduced the history of Barti Ddu! They were excellent! Congratulations to the children, Miss Williams and Mrs Fox. This week, Mei Gwynedd came in to record their excellent song about Barti Ddu!

Gwersi Seiclo Blwyddyn 5 Cycling Proficiency Course

Llongyfarchiadau i flwyddyn 5 sydd wedi bod yn cymryd rhan mewn cwrs seiclo. Maen nhw wedi dysgu sgiliau pwysig wrth ddysgu sut i deithio'n ddiogel ar feic o amgylch y ddinas! Diolch i Wasanaeth Ffyrdd Caerdydd am y gwersi.

Congratulations to year 5 who have been taking part in a cycling proficiency course. They've learnt important messages as they cycle safely around the city on a bike. Diolch to the Road Safety staff for their work.

Twrnaint Pêl-droed 5 bob ochr y merched / Girls 5 a side football tournament

Llongyfarchiadau i'r merched a fu'n cystadlu mewn twrnaint 5 bob ochr. Roedden nhw'n wych a dangoson nhw waith tîm arbennig. Llwyddiant ysgubol wrth iddyn nhw ddod yn ail yn y grŵp! Da iawn ferched!

Congratulations to the girls who competed in a 5 a side football tournament. They were excellent and they showed great sportmanship! They came second in the group! Amazing girls!

Cwis Dim Clem, Mentrau Iaith Cymru / Wales' Mentrau Iaith

Llongyfarchiadau i dîm Cwis Dim Clem blwyddyn 6 am ennill y rownd ranbarthol a chystadlu yn y rownd genedlaethol. Nid nhw oedd y pencampwyr ond dangoson nhw wybodaeth arbennig iawn o Gymru.



Congratulations to the Cwis Dim Clem team from year 6 who won the regional round and represented South Wales in the national round. It wasn't our year this year but they showed excellent knowledge of Wales.



Eisteddfod Celf a Chrefft **Arts And Crafts Eisteddfod**

Os yw eich plentyn yn mwynhau celf a chrefft beth am gystadlu yn yr Eisteddfod Celf a Chrefft. Mae llwyth o gystadlaethau gan yr eisteddfod sydd yn dathlu doniau creadigol ein plant. Gallan nhw wneud darn o gelf 2D neu 3D, cymryd rhan mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth neu decstilau, neu mae hyd yn oed cyfle i gystadlu mewn cystadlaethau digidol megis creu gwefan neu brosiect animeiddio. Ewch Amdan!!

Mae'r holl gystadlaethau i'w ffeindio yn y [rhestr testunau](#) ac mae'r rheolau wedi eu nodi yn glir, tudalen 45 - 59. Nodwch yn glir ar gefn y darn gwaith rif y gystadleuaeth.

Bydd angen dod a'r gwaith celf i'r ysgol, wedi'i labelu'n glir, erbyn: **28.4.25**.

If your child enjoys Arts and Craft, why not compete in the Arts and Crafts Eisteddfod. There are various competitions to choose from - they could create a 2D or 3D piece of art, take part in the photography or textiles competition or they can even compete in the digital competitions, for example creating a website or an animation project. Go for it!

All competitions and rules can be found in the [Eisteddfod Syllabus](#) -please note that there is a theme to most competitions. You will find the information on Pages 45 - 59.

*The finished work needs to be brought into school, clearly labelled by: **28.4.25***

Clybiau Wythnosol / Weekly Clubs

	Dydd Iau Thursday
3.30 - 4.30	Code Club Aelodau yn unig / members only <u>B14- 6</u> Clwb aml-chwaraeon Multi-sports club

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

<p>Mis Mawrth Sialens Siarter Iaith y Teulu <i>Language Charter Family Target</i></p>	<p>Mis Mawrth Proc i'r Cof Diogelwch ar y We <i>Internet Safety Tip</i></p>	<p>Mis Mawrth Hawliau Plant <i>Children's Rights</i></p>
<p>Gwylwch Stwnsh Sadwrn bob wythnos.</p> <p><i>Watch Stwnsh Sadwrn every week.</i></p>	<p>Cofiwch wirio cyfrifon Roblox y disgyblion i sicrhau nad oes ganddyn nhw fynediad at gemau anaddas (siarad gyda dieithrod)</p> <p><i>Check your children's Roblox accounts to ensure that your children don't have access to inappropriate games (where they can speak to strangers).</i></p>	<p>Eich hawl i ymlacio a chwarae.</p> <p><i>Your right to rest and play .</i></p>

Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:

Swyddogion Diogelu yr Ysgol / Safeguarding Designated Teachers: Siwan Dafydd ac Aled Thomas
Llywodraethwr Diogelu / Safeguarding Governor: Emma Simpkins

[Gwybodaeth Diogelu / Safeguarding Information](#)

[Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form](#)

[Ffurflen Gwyliau / Holiday Form](#)




[Gwaith cartref / Home Work](#)

bit.ly/gwaithcartrefPC

DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY

Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser
Here are key dates and more information will be shared nearer the time



Dyddiad / Date	Digwyddiad / Event
01.04.25	Eisteddfod Theatr - disgyblion Cyflwyniad Dramatig Theatre Eisteddfod - Cyflwyniad Dramatig pupils
02.04.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 1 Year 1 Class Assembly
07.04.25	CRha / PTA: Cystadleuaeth Bonedi Pasg / Easter Bonnet competition.
8.4.25	BI1 a 2: Trip i'r Bae Trip to the Bay
09.04.25 - 11.04.25	BI4: Maes y Fron - taliadau ar agor ar ParentPay Call of the Wild - payments open on ParentPay
11.04.24	Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term 14.4.25 - 25.4.25: Gwyliau Pasg / Easter Holiday
29.4.25	Casgliad Dillad 'Rags to Riches' Clothes Collection
02.05.25	BI6: Diwrnod Pontio - chwaraeon Transition Day - sports
14.05.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 2 Year 2 Class Assembly
21.05.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Dosbarth Derbyn Reception Class Assembly
26.05.25 - 30.05.25	Hanner Tymor / Half Term
02.06.24 - 03.06.24	BI3: Pentre Ifan a Chastell Henllys Pentre Ifan and Castell Henllys
09.06.25 - 20.06.25	BI3: Gwersi Nofio <i>Swimming Lessons</i>
30.06.25	BI6: Diwrnod Pontio (heb staff Pencae) Transition Day (without Pencae staff)
03.07.25 1pm - 3.30pm	Mabolgampau - NIAC, Cyncoed. Dewch i wylia a bydd angen casglu y disgyblion o Gyncoed. <i>Sports Day - NIAC Cyncoed. Come and watch! You will have to pick the children up from Cyncoed.</i>
18.07.25	Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term 2.30pm: Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly
21.07.25	Diwrnod HMS / Inset Day



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



ysgolpencae



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851